# CHANGE PLANS 4.0



**Acting today for a better tomorrow**

The Change Plan module is a core part of the Future Generations Leadership Academy It's the practical module of the programme where participants utilise everything they have learnt about the Well-being of Future Generations Act.

The participants design their thinking in line with the missions set out by the Future Generations Commissioner in his strategy Cymru Can.
These are: **Health & Well-being**, **Climate & Nature**, **Implementation & Impact**, **A Well-being Economy**, and **Culture & Welsh Language.**
These missions guide the direction and impact of the Change Plans, more information can be found here: Missions of the Future Generations Office.

Change Plans are developed individually or collaboratively. Although there is no expectation that the plans will be implemented, they provide a structured way for participants to practice using the five ways of working and seven well-being goals. The plans address real or theoretical challenges within organisations or communities. Cymru Can is often used to share ideas and access resources during the Change Plan process.

The module therefore encourages collaboration, creativity, and leadership in line with the Well-being of Future Generations Act and helps participants prepare to make sustainable, long-term change in their field.

In this resource, we have gathered the titles and themes of the fourth round of the Future Generations Cymru Leadership Academy. Each Change Plan title is written in bold, followed by the name of the organisation or partner the plan is connected to.



| | |
|---|---|
| **Evidence-Based Social Prescribing Implementation for Preventative Health in Wales**<br>Swansea University | |
| Mission: Implementation & Impact | **Yumna Hassan** proposes integrating social prescribing (SP) into NHS Wales to address healthcare pressures such as long waiting times, workforce burnout, and budget constraints. SP offers a cost-effective, patient-centred approach by targeting social determinants of health to improve outcomes and reduce demand on acute services. |
| **Embedding the Act within Corporate Strategy development**<br>Transport for Wales | |
| Mission: Implementation & Impact | **Leah Fossey** suggests Transport for Wales to embed the Well-being of Future Generations Act into its 2025–26 Business Plan and 2027–32 Corporate Strategy, focusing on long-term, sustainable planning aligned with the Act's goals and ways of working. |
| **Improving stakeholder involvement in active travel projects**<br>Newport City Council | |
| Mission: Implementation & Impact | **Louis Preece** asks local authorities to shift from a "Decide, Announce, Defend" model to an "Engage, Deliberate, Decide" approach in active travel projects, promoting early and inclusive stakeholder involvement. This aims to improve design outcomes, reduce late-stage risks, and build community trust, ultimately supporting healthier, more sustainable transport choices. |
| **Generation Food: Engaging Youth in Food Choices**<br>Collaboration between: Castell Howell and Young Farmers | |
| Mission: Well-being Economy | **Dafydd Walters and Frances Evans** revolutionise how young people engage with food by shifting away from traditional, passive learning methods and embracing innovative, interactive approaches to cultivate a deeper understanding of food production, nutrition, and sustainable consumption habits. |
| **Welsh in legal contexts: preparing the way for a fundamental right to the language**<br>Welsh Government | |
| Mission: Culture & Welsh Language | **Morgan Owen** highlights the historical limitations of Welsh language legislation and calls for the creation of a real, enforceable right to use Welsh in all aspects of public life. It aims to shift the language from the margins to the core of decision-making by building public and political momentum toward making this right a legislative priority. |
| **Tech Equality Wales: Creating Opportunties for Women in Data and Technology**<br>Dwr Cymru | |
| Mission: Implementation & Impact / Well-being Economy | **Megan Perry** seeks to address the gender imbalance in data, AI, and technology, where women are significantly underrepresented and often leave mid-career. By turning inclusive intentions into concrete actions, it aims to create a sector where women can thrive and contribute fully to Wales' long-term sustainability and innovation goals. |

**Recriwtio Hygyrch - Chwalu'r Rhwystrau i swyddi lefel mynediad**
Hywel Dda University Health Board

| | |
|---|---|
| Mission: Implementation & Impact / Well-being Economy | **Ceris Thomas** asks Hywel Dda University Health Board to improve accessible recruitment for entry-level jobs by eliminating digital application forms, reducing paperwork, and holding recruitment events. |

**Addressing Mental Health Stigma in Ethnic Minority Communities Through Education and Awareness**
BAME Mental Health and Support NHS

| | |
|---|---|
| Mission: Health & Well-being | **Oluwatomi Adewole** seeks to reduce mental health stigma within ethnic minority communities by launching a targeted education and awareness campaign. It aims to increase mental health literacy, challenge stereotypes, and promote open dialogue. |

**Diwylliant Caerdydd: A VLR for Cardiff reviewed through the lens of Culture**
Freelance

| | |
|---|---|
| Mission: Culture / Implementation & Impact | **Callum Jones** proposes that Cardiff implements a Voluntary Local Review (VLR), analysing progress on the SDGs and Welsh well-being goals through the lens of culture - implementing the framework developed by Culture Expert and Creative Producer Charlotte Pyatt. |

**How can we provide equal opportunities for upcoming Global Majority Talent**
Diverse Cymru

| | |
|---|---|
| Mission: Implementation & Impact / Well-being Economy | **Saadia Abubaker** advocates for targeted programmes to support young people from Global Majority backgrounds in Wales by addressing systemic barriers to opportunity and leadership. It aims to provide equitable access to skills, mentorship, and economic participation, ensuring Wales builds an inclusive and representative future workforce. |

**We Have Always Been Here: Trans Pride Cardiff's Community Programmes**
Trans Pride Cardiff

| | |
|---|---|
| Mission: Culture / Health & Well-being | Kay R. Dennis addresses the systemic inequalities faced by the Trans, Intersex, and Nonbinary (TIN) community in Cardiff by proposing a delivery of co-designed programmes focused on healthcare access, employment upskilling, and social connection with potential for expansion across Wales. |

**'Digital Communications: Digital Sustainability Audit'**
Welsh Government

| | |
|---|---|
| Mission: Nature / Implementation & Impact | Megan Davies-Coulson proposes a Digital Sustainability Audit for Welsh Government social media communications to align with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. It aims to reduce the environmental footprint of digital content while enhancing accessibility and inclusive engagement practices. |

**How the Third Sector Can Lead on Futures Thinking in Organisational Strategy**
Welsh Centre for International Affairs (WCIA)

| | |
|---|---|
| Mission: Implementation & Impact / Culture & Welsh Language | **Rebecca Leyla** outlines how the WCIA will use a 2075 vision and 50-year strategy to embed futures thinking into organisational strategic planning, aligned with the Act. It suggests using WCIA's layered long-term approach as a practical model for wider sectors to consider when creating strategies and emphasises foresight methodologies, stakeholder engagement, and collaborative co-creation with staff and trustees. |

**The One Million Mission: Contributing to Cymraeg 2050 by increasing the number of Welsh Speakers in my organisation**
Pembrokeshire Coast National Park Authority

| | |
|---|---|
| Mission: Culture & Welsh Language / Implementation & Impact | **Georgia Jones** supports the Cymraeg 2050 goal by aiming to increase the number of Welsh speakers within the Pembrokeshire Coast National Park Authority. Recognising the need for ambitious action to reverse the decline in Welsh speakers, the plan encourages staff to learn and use Welsh, creating a culture that helps secure the language's future. |

**Mental Health, Integration, and Legal Challenges for Young Refugees and Asylum Seekers (16-25) in Cardiff and Vale of Glamorgan**
Oasis

| | |
|---|---|
| Mission: Health & Well-being / Well-being Economy / Culture | **Yaser Sheikhpour** emphasises co-design with young refugees and asylum seekers to improve legal aid, better mental health access, and tackle systemic barriers to create a healthier, fairer Wales through collaborative efforts across mental health, legal, transport, and policy sectors. |

**Future Generations Society**
Natural Resources Wales (NRW)

| | |
|---|---|
| Mission: Well-being Economy / Implementation & Impact | **Dan Wood** aims to empower Welsh youth by creating a dynamic network that showcases changemakers' leadership journeys through digital storytelling. This initiative seeks to increase youth representation in decision-making, raise awareness of development opportunities, and increase collaboration across generations and sectors. |

**Improving collaboration: revised training for writers on creating educated resources to support the delivery of Making for Wales qualifications**
WJEC

| | |
|---|---|
| Mission: Implementation & Impact | **Beca Jones** seeks to enhance training for educational resource writers to better integrate the WBFGA principles into qualification materials, particularly for the Making for Wales curriculum. By doing so, it aims to ensure that resources promote long-term well-being, equality, and sustainability. |

| | |
|---|---|
| **Embedding financial education within the school curriculum**<br>Principality Building Society | |
| Mission: Well-being Economy | **Ffion Bisatt** aims to embed age-appropriate financial education into early childhood development to build essential life skills in money management, decision-making, and financial independence. Motivated by personal experience, it advocates for equipping children with the knowledge and tools to achieve long-term financial well-being and stability. |
| **Preventative health**<br>Sports Wales | |
| Mission: Health & Well-being / Well-being Economy | **Zaynub Akbar** advocates for a preventative approach to health by positioning sport and physical activity as the most effective tools for improving public health in Wales. With persistently high levels of obesity and inactivity, it calls for a long-term, cross-portfolio commitment from the Welsh Government. |
| **Building a sustainable healthcare workforce**<br>EYST | |
| Mission: Health & Well-being | **Sana Shaikh** addresses the urgent healthcare workforce crisis in Wales by proposing long-term strategies to attract, retain, and support professionals under 35. It focuses on strengthening education-to-employment pathways, career progression, and policy alignment to ensure sustainable NHS staffing. |
| **Reforming Youth Services and Community Provisions in Wales (RCT)**<br>Wales Millennium Centre (WMC) | |
| Mission: Culture / Implementation & Impact / Well-being Economy | **Ruby Llwelyn** proposes reforming community support in Wales, particularly in Rhondda Cynon Taf (RCT), by establishing long-term, community-led Catref Cymuned (Community Home) centres. These shared resource hubs aim to replace short-term, scheme-based models with sustainable, integrated services that strengthen community cohesion and address social challenges at their roots. |
| **Enhancing Awareness of WellBeing and its Impact on Employability in Torfaen**<br>Torfaen County Bourough Council | |
| Mission: Implementation & Impact / Well-being Economy | **Teagan Blewitt** aims to raise awareness of the link between well-being and employability in Torfaen. While the council moves toward community-led resilience and reduced intervention, the plan will support this transition by enhancing access to well-being and employment resources. |
| **Going back to eating "real food" to create a healthier Wales**<br>Welsh Government | |
| Mission: Health & Well-being | **Mirain Ifan** aims to improve health and well-being in Wales by promoting a return to eating "real food" and reducing ultra-processed food (UPF) consumption. Through community research, educational workshops, and stakeholder engagement, it seeks to address diet-related physical and mental health issues. |

**Empowering Communities through a Real Living Wage / The Impact of a Real Living Wage on Local Economies**
Grange Pavilion Youth Forum

| | |
|---|---|
| Mission: Well-being Economy | **Ali Arshad** and **Shukri Ahmed** advocate for implementing a real living wage in small communities to promote economic stability, reduce poverty, and enhance social well-being. It highlights how fair pay can boost productivity, reduce staff turnover, and strengthen local economies, while exploring sustainable strategies for small businesses to adopt living wages without risking their financial health. |

**Housing crisis: Improve and tackle housing crisis in rural areas across North Wales**
Grwp Cynefin and NHS Wales

| | |
|---|---|
| Mission: Well-being Economy / Implementation & Impact | **Chloe Tudor Jones and Ela Haf Williams** address the housing crisis in rural North Wales, where rising property prices and a high number of empty and second homes limit access to affordable housing. The plan aims to better understand housing needs and develop solutions that improve affordability, availability, and community cohesion to improve the well-being of residents. |

**Improving health and wellbeing opportunities for under-represented communities**
NHS Cymru

| | |
|---|---|
| Mission: Health & Well-being / Culture | **Jeevan Kaur** aims to improve access to health, well-being, and climate activism spaces for under-represented communities, particularly South Asian groups in Cardiff, through a creative, community-led project. By using art to explore climate justice and well-being, the initiative seeks to promote inclusion and empower voices. |

**Supporting non-Welsh speaking parents in their decision to give their children a Welsh education**
Urdd

| | |
|---|---|
| Mission: Culture & Welsh Language | **Mali Ephraim Harries** supports the Welsh Government's goal to reach 1 million Welsh speakers by 2050 by focusing on encouraging non-Welsh-speaking parents to choose Welsh-medium education for their children. It aims to create supportive conditions to help these parents make informed decisions, especially in areas where Welsh is less commonly spoken. |

**Removing barriers to engagement and integration of underrepresented groups**
Cynnal Cymru

| | |
|---|---|
| Mission: Implementation & Impact | **Abi Hoare** highlights the need to embed Welsh language goals into strategic planning, improve bilingual service delivery, and engage diverse communities. With a focus on digital resources, staff training, and community impact, it asks Cynnal Cymru to position the Welsh language as a core element of its sustainability mission. |

# THANK YOU TO OUR SPONSORS AND PARTNERS 2024/2025

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Castell Howell

Leaderful ACTION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cbac wjec

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Dŵr Cymru
Welsh Water

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Cynlluniau Newid 4.0



Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

Mae'r modiwl Cynllun Newid yn rhan greiddiol o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'rDyfodol. Dyma fodiwl ymarferol y rhaglen lle mae cyfranogwyr yn defnyddio popeth maen nhw wedi'i ddysgu am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cyfranogwyr yn dylunio eu meddwl yn unol â'r Cenadaethau a nodir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei strategaeth Cymru Can.
Y rhain yw: **Iechyd a Llesiant, Hinsawdd a Natur, Gweithredu ac Effaith, Economi Llesiant,** a **Diwylliant a'r Gymraeg.**
Mae'r cenadaethau hyn yn llywio cyfeiriad ac effaith y Cynlluniau Newid; gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: Cenadaethau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol.

Datblygir Cynlluniau Newid bob yn un ac un neu ar y cyd. Er nad oes disgwyl y bydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu, maen nhw'n rhoi ffordd strwythuredig i gyfranogwyr ymarfer defnyddio'r Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant. Mae'r cynlluniau'n mynd i'r afael â heriau go iawn neu ddamcaniaethol o fewn sefydliadau neu gymunedau. Defnyddir Cymru Can yn aml i rannu syniadau a chyrchu adnoddau yn ystod y broses Cynllun Newid.

Felly mae'r modiwl yn annog cydweithio, creadigrwydd ac arweinyddiaeth yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn helpu cyfranogwyr i baratoi i wneud newid cynaliadwy, hirdymor yn eu maes.

Yn yr adnodd hwn, rydym wedi casglu teitlau a themâu pedwerydd rownd Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae pob teitl Cynllun Newid wedi'i ysgrifennu mewn print trwm, i'w ddilyn gan enw'r sefydliad neu'r partner y mae'r cynllun yn gysylltiedig ag ef.



| | |
|---|---|
| **Gweithredu Presgreibio Cymdeithasol yn Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Iechyd Ataliol yng Nghymru**<br>Prifysgol Abertawe | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith | **Yumna Hassan:** Mae'r cynllun newid hwn yn cynnig gwneud presgreibio cymdeithasol yn rhan o GIG Cymru i fynd i'r afael â'r pwysau ar ofal iechyd fel amseroedd aros hir, diffygiad gweithlu, a chyfyngiadau cyllidebol. Mae presgreibio cymdeithasol yn cynnig dull o fynd ati sy'n gost-effeithiol, wedi ei ganoli ar y claf drwy dargedu penderfynyddion cymdeithasol iechyd ar gyfer gwella canlyniadau a lleihau'r galw ar wasanaethau aciwt. |
| **Gwneud y Ddeddf yn rhan annatod o ddatblygiad Strategaeth Gorfforaethol**<br>Trafnidiaeth Cymru | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith | **Leah Fossey:** Mae'r cynllun newid hwn yn gofyn i Trafnidiaeth Cymru wneud y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'u Cynllun Busnes 2025–26 a'u Strategaeth Gorfforaethol 2027–32, gan ganolbwyntio ar gynllunio hirdymor, cynaliadwy sy'n cyd-fynd â nodau'r Ddeddf a'i dulliau o weithio. |
| **Gwella ymgyfraniad rhanddeiliaid mewn prosiectau teithio llesol**<br>Cyngor Dinas Casnewydd | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith | **Louis Preece:** Mae'r cynllun newid hwn yn gofyn i awdurdodau lleol symud o fodel "Penderfynu, Cyhoeddi, Amddiffyn" i fodel "Ymgysylltu, Ystyried, Penderfynu" ym mhrosiectau teithio llesol, gan hyrwyddo ymgyfraniad rhanddeiliaid yn gynnar ac yn gynhwysol. Y nod yw gwella risgiau hwyr yn y dydd, ac adeiladu ymddiriedaeth gymunedol, gan gefnogi, yn y pen draw, ddewisiadau trafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy. |
| **Bwyd Cenhedlaeth: Ennyn ymgyfraniad Pobl Ifanc mewn Dewisiadau Bwyd**<br>Cydweithio rhwng: Castell Howell a Young Farmers | |
| Cenhadaeth: Economi Llesiant | **Dafydd Walters and Frances Evans:** Nod y cynllun newid hwn yw chwyldroi'r modd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â bwyd drwy symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau dysgu traddodiadol, goddefgar, a chroesawi ymagweddau arloesol, rhyngweithiol er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o gynhyrchu bwyd, maeth ac arferion bwyta cynaliadwy. |
| **Y Gymraeg mewn cyd-destunau cyfreithiol: paratoi'r ffordd at hawl sylfaenol i'r iaith**<br>Llywodraeth Cymru | |
| Cenhadaeth: Diwylliant a'r Gymraeg | **Morgan Owen:** Mae'r cynllun newid hwn yn tynnu sylw at gyfyngiadau hanesyddol deddfwriaeth yr iaith Gymraeg ac yn galw am greu hawl wirioneddol, orfodadwy i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Ei nod yw symud yr iaith o'r ymylon a'i gwneud yn ganolbwynt penderfyniadau a wneir, drwy feithrin momentwm cyhoeddus a gwleidyddol tuag at wneud yr hawl hon yn flaenoriaeth ddeddfwriaethol. |
| **Cydraddoldeb Technoleg Cymru: Creu Cyfleoedd i Fenywod mewn Data a Thechnoleg**<br>Dwr Cymru | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith / Economi Llesiant | **Megan Perry**: Bwriad y cynllun newid hwn yw mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn data, deallusrwydd artiffisial, a thechnoleg, lle mae menywod wedi'u tangynrychioli'n sylweddol ac yn aml yn gadael yng nghanol eu gyrfa. Drwy droi bwriadau cynhwysol yn gamau gweithredu pendant, ei nod yw creu sector lle gall menywod ffynnu a chyfrannu'n llawn at nodau cynaliadwyedd ac arloesi hirdymor Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Recriwtio Hygyrch - Chwalu'r Rhwystrau i swyddi lefel mynediad**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith / Economi Llesiant | **Ceris Thomas** Mae'r cynllun newid hwn yn gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wella re:criwtio hygyrch ar gyfer swyddi lefel mynediad drwy ddileu ffurflenni cais digidol, lleihau gwaith papur, a chynnal digwyddiadau recriwtio. |
| **Mynd i'r afael â Stigma Iechyd Meddwl mewn Cymunedau Lleiafrifol Ethnig Trwy Addysg ac Ymwybyddiaeth**<br>BMHS | |
| Cenhadaeth: Iechyd a Llesiant | **Oluwatomi Adewole:** Mae'r cynllun newid hwn yn ceisio lleihau stigma iechyd meddwl o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig drwy lansio ymgyrch addysg ac ymwybyddiaeth wedi'i thargedu. Ei nod yw cynyddu llythrennedd iechyd meddwl, herio stereoteipiau, a hyrwyddo deialog agored. |
| **Diwylliant Caerdydd: Adolygiad Lleol Gwirfoddol wedi ei adolygu drwy lens Diwylliant**<br>Llawrydd | |
| Cenhadaeth: Diwylliant a'r Gymraeg / Gweithredu ac Effaith | **Callum Jones:** Mae'r cynllun newid hwn yn cynnig bod Caerdydd yn gweithredu Adolygiad Lleol Gwirfoddol gan ddadansoddi cynnydd ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Nodau Llesiant Cymru drwy lens diwylliant - gan weithredu'r fframwaith a ddatblygwyd gan yr Arbenigwraig Diwylliant a'r Cynhyrchydd Creadigol Charlotte Pyatt. |
| **Sut allwn ni ddarparu cyfleoedd cyfartal i Dalentau'r Mwyafrif Byd-eang sydd ar ddod**<br>Diverse Cymru | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith / Economi Llesiant | **Saadia Abubaker:** Mae'r cynllun newid hwn yn dadlau dros raglenni wedi'u targedu i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang yng Nghymru drwy fynd i'r afael â rhwystrau systemig i gyfleoedd ac arweinyddiaeth. Ei nod yw darparu mynediad cyfartal i sgiliau, mentora a chyfranogiad economaidd, gan sicrhau bod Cymru'n adeiladu gweithlu cynhwysol a chynrychiadol yn y dyfodol. |
| **Rydym Ni Wedi Bod Yma Erioed: Rhaglenni Cymunedol Traws Pride Caerdydd**<br>Trans Balchder Caerdydd | |
| Cenhadaeth: Diwylliant a'r Gymraeg / Iechyd a Llesiant | **Kay R. Dennis:** Mae'r cynllun newid hwn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau systemig y mae'r gymuned Draws, Rhyngrywiol, ac Anneuaidd yn eu hwynebu yng Nghaerdydd drwy gynnig darparu rhaglenni wedi'u cynllunio ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar fynediad i ofal iechyd, uwchsgilio cyflogaeth, a chysylltiadau cymdeithasol gyda photensial i ehangu ledled Cymru. |
| **Cyfathrebu Digidol: Archwiliad Cynaliadwyedd Digidol**<br>Llywodraeth Cymru | |
| Cenhadaeth Hinsawdd a Natur / Gweithredu ac Effaith | **Megan Davies-Coulson:** Mae'r cynllun newid hwn yn cynnig Archwiliad Cynaliadwyedd Digidol ar gyfer cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei nod yw lleihau ôl troed amgylcheddol cynnwys digidol tra'n gwella hygyrchedd ac arferion ymgysylltu cynhwysol. |

| | |
|---|---|
| **Sut Gall y Trydydd Sector Arwain ar Feddwl ar y Dyfodol mewn Strategaeth Sefydliadol**<br>Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith / Diwylliant a'r Gymraeg | **Rebecca Leyla:** Mae'r Cynllun Newid hwn yn amlinellu sut y bydd Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn defnyddio Gweledigaeth 2075 a strategaeth 50 mlynedd i ymgorffori meddwl ar y dyfodol mewn cynllunio strategol sefydliadol, yn unol â'r Ddeddf. Mae'n awgrymu defnyddio dull hirdymor haenog WCIA fel model ymarferol i sectorau ehangach ei ystyried wrth greu strategaethau ac yn pwysleisio methodolegau rhagweld, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyd-greu cydweithredol gyda staff ac ymddiriedolwyr. |
| **Cenhadaeth Un Miliwn: Cyfrannu at Cymraeg 2050 drwy gynyddu nifer y Siaradwyr Cymraeg yn fy sefydliad**<br>Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| Cenhadaeth: Diwylliant a'r Gymraeg / Gweithredu ac Effaith | **Georgia Jones:** Mae'r cynllun newid hwn yn cefnogi nod Cymraeg 2050 drwy anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gan gydnabod yr angen am gamau uchelgeisiol i wrthdroi'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r cynllun yn annog staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan greu diwylliant sy'n helpu i sicrhau dyfodol yr iaith. |
| **Iechyd Meddwl, Integreiddio, a Heriau Cyfreithiol i Ffoaduriaid Ifanc a Cheiswyr Lloches 16-25 mlwydd oed yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg**<br>Oasis | |
| Cenhadaeth: Iechyd a Llesiant / Economi Llesiant / Diwylliant a'r Gymraeg | **Yaser Sheikhpour:** Mae'r cynllun newid hwn yn pwysleisio cyd-gynllunio ar y cyd â ffoaduriaid ifanc a cheiswyr lloches i wella cymorth cyfreithiol, gwella mynediad i iechyd meddwl, a mynd i'r afael â rhwystrau systemig i greu Cymru iachach a thecach trwy ymdrechion cydweithredol ar draws sectorau iechyd meddwl, cyfreithiol, trafnidiaeth a pholisi. |
| **Cymdeithas Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Cenhadaeth: Economi Llesiant / Gweithredu ac Effaith | **Dan Wood:** Nod y cynllun newid hwn yw grymuso ieuenctid Cymru drwy greu rhwydwaith deinamig sy'n arddangos teithiau arweinyddiaeth ysgogwyr newid drwy adrodd straeon digidol. Mae'r fenter hon yn ceisio cynyddu cynrychiolaeth ieuenctid mewn gwneud penderfyniadau, codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd datblygu, a chynyddu cydweithio ar draws cenedlaethau a sectorau. |
| **Gwella cydweithio: hyfforddiant diwygiedig i awduron ar greu adnoddau addysgiedig i gefnogi darpariaeth cymwysterau Creu Dros Gymru**<br>CBAC | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith | **Beca Jones:** Gobaith y cynllun newid hwn yw gwella hyfforddiant i awduron adnoddau addysgol gyda'r nod o wneud egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan anhepgor o ddeunyddiau cymwysterau, yn enwedig ar gyfer cwricwlwm Creu dros Gymru. Drwy wneud hynny, ei nod yw sicrhau bod adnoddau'n hyrwyddo llesiant hirdymor, cydraddoldeb a chynaliadwyedd. |

| | |
|---|---|
| **Gwneud addysg ariannol yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol**<br>Cymdeithas Adeiladu Principality | |
| Cenhadaeth:<br>Economi Llesiant | **Ffion Bisatt:** Nod y cynllun newid hwn yw gwneud addysg ariannol sy'n briodol i oedran yn rhan annatod o ddatblygiad plentyndod cynnar er mwyn meithrin sgiliau bywyd hanfodol mewn rheoli arian, gwneud penderfyniadau ac annibyniaeth ariannol. Wedi'i ysgogi gan brofiad personol, mae'n dadlau dros roi'r wybodaeth a'r offer i blant i gyflawni llesiant a sefydlogrwydd ariannol hirdymor. |
| **Iechyd ataliol**<br>Chwaraeon Cymru | |
| Cenhadaeth:<br>Iechyd a Llesiant / Economi Llesiant | **Zaynub Akbar:** Mae'r Cynllun Newid hwn yn eiriol dros ddull ataliol o ran iechyd trwy osod chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel yr offer mwyaf effeithiol ar gyfer gwella iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Gyda lefelau uchel parhaus o ordewdra ac anweithgarwch, mae'n galw am ymrwymiad hirdymor, trawsbortffolio gan Lywodraeth Cymru. |
| **Adeiladu gweithlu gofal iechyd cynaliadwy**<br>Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig | |
| Cenhadaeth:<br>Iechyd a Llesiant | **Sana Shaikh:** Mae'r cynllun newid hwn yn mynd i'r afael â'r argyfwng gweithlu gofal iechyd brys yng Nghymru trwy gynnig strategaethau hirdymor i ddenu, cadw a chefnogi gweithwyr proffesiynol o dan 35 oed. Mae'n canolbwyntio ar gryfhau llwybrau addysg-i-gyflogaeth, dilyniant gyrfa, ac aliniad polisi i sicrhau staffio cynaliadwy yn y GIG |
| **Diwygio Gwasanaethau Ieuenctid a Darpariaethau Cymunedol yng Nghymru (RCT)**<br>Canolfan Mileniwm Cymru | |
| Cenhadaeth:<br>Diwylliant a'r Gymraeg / Gweithredu ac Effaith / Economi Llesiant | **Ruby Llwelyn:** Mae'r Cynllun Newid hwn yn cynnig diwygio cymorth cymunedol yng Nghymru, yn enwedig yn Rhondda Cynon Taf (RCT), drwy sefydlu canolfannau Cartref Cymuned hirdymor, dan arweiniad y gymuned. Nod y canolfannau adnoddau hyn a rennir yw disodli modelau tymor byr, sy'n seiliedig ar gynlluniau, gyda gwasanaethau cynaliadwy, integredig sy'n cryfhau cydlyniant cymunedol ac sy'n mynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol sydd wrth eu gwraidd. |
| **Gwella Ymwybyddiaeth o Lesiant a'i Effaith ar Gyflogadwyedd yn Nhorfaen**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | |
| Cenhadaeth:<br>Gweithredu ac Effaith / Economi Llesiant | **Teagan Blewitt:** Nod y Cynllun Newid hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng llesiant a chyflogadwyedd yn Nhorfaen. Tra bo'r cyngor yn symud tuag at gydnerthedd o dan arweiniad y gymuned a llai o ymyrraeth, bydd y cynllun yn cefnogi'r trawsnewid hwn trwy wella mynediad i adnoddau llesiant a chyflogaeth. |
| **Mynd yn ôl i fwyta "bwyd go iawn" i greu Cymru iachach**<br>Llywodraeth Cymru | |
| Cenhadaeth:<br>Iechyd a Llesiant | **Mirain Ifan:** Nod y cynllun newid hwn yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru drwy hyrwyddo dychwelyd i fwyta "bwyd go iawn" a lleihau'r defnydd o fwyd wedi'i brosesu'n ormodol. Drwy ymchwil cymunedol, gweithdai addysgol, ac ymgysylltiad rhanddeiliaid, ei amcan yw mynd i'r afael â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â diet. |

| | |
|---|---|
| **Grymuso Cymunedau drwy Gyflog Byw Go Iawn / Effaith Cyflog Byw Go Iawn ar Economïau Lleol**<br>Fforwm Ieuenctid Pafiliwn y Grange | |
| Cenhadaeth: Economi Llesiant | **Ali Arshad** and **Shukri Ahmed**: Mae'r cynllun newid hwn yn dadlau dros weithredu cyflog byw go iawn mewn cymunedau bach i hyrwyddo sefydlogrwydd economaidd, lleihau tlodi, a gwella llesiant cymdeithasol. Mae'n amlygu’r modd y gall cyflog teg hybu cynhyrchiant, lleihau trosiant staff, a chryfhau economïau lleol, tra’n archwilio strategaethau cynaliadwy i fusnesau bach fabwysiadu cyflogau byw heb beryglu eu cyflwr ariannol. |
| **Argyfwng tai: Gwella a mynd i'r afael ag argyfwng tai mewn ardaloedd gwledig ledled gogledd Cymru**<br>Grwp Cynefin and GIG Cymru | |
| Cenhadaeth: Economi Llesiant / Gweithredu ac Effaith | **Chloe Tudor Jones and Ela Haf Williams:** Mae'r cynllun newid hwn yn mynd i'r afael â'r argyfwng tai yng nghefn gwlad gogledd Cymru, lle mae prisiau cynyddol tai a’r nifer uchel o gartrefi gwag ac ail gartrefi yn cyfyngu ar fynediad i dai fforddiadwy. Nod y cynllun yw deall anghenion tai yn well a datblygu datrysiadau sy'n gwella fforddiadwyedd, argaeledd a chydlyniant cymunedol er mwyn gwella llesiant trigolion. |
| **Gwella cyfleoedd iechyd a llesiant i gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol**<br>GIG Cymru | |
| Cenhadaeth: Iechyd a Llesiant | **Jeevan Kaur:** Nod y cynllun newid hwn yw gwella mynediad i ofodau iechyd, llesiant, ac actifiaeth hinsawdd ar gyfer cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig grwpiau De Asiaidd yng Nghaerdydd, trwy brosiect creadigol, dan arweiniad y gymuned. Drwy ddefnyddio celf i archwilio cyfiawnder hinsawdd a llesiant, mae'r fenter yn ceisio hyrwyddo cynhwysiant a grymuso lleisiau. |
| **Cefnogi rhieni di-Gymraeg yn eu penderfyniad i roi addysg Gymraeg i’w plant**<br>Urdd | |
| Cenhadaeth: Diwylliant a'r Gymraeg | **Mali Ephraim Harries:** Mae'r Cynllun Newid hwn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ganolbwyntio ar annog rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Ei nod yw creu amodau cefnogol i helpu'r rhieni hyn i wneud penderfyniadau gwybodus, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae siarad Cymraeg yn llai cyffredin. |
| **Dileu rhwystrau i gysylltiad ac integreiddiad grwpiau a dan gynrychiolir**<br>Cynnal Cymru | |
| Cenhadaeth: Gweithredu ac Effaith | **Abi Hoare:** Mae'r cynllun newid hwn yn tynnu sylw at yr angen i wneud nodau’r Gymraeg yn rhan annatod o gynllunio strategol, gwella darpariaeth gwasanaethau dwyieithog, ac ymgysylltu â gwahanol gymunedau. Gyda ffocws ar adnoddau digidol, hyfforddiant staff, ac effaith gymunedol, mae'n gofyn i Cynnal Cymru wneud y Gymraeg yn ganolbwynt eu cenhadaeth cynaliadwyedd. |

# DIOLCH I'N NODDWYR A'N PARTNERIAID 2024/2025

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Castell Howell

Leaderful ACTION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cbac wjec

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Dŵr Cymru
Welsh Water

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy